

newyddion Cymraeg Colegau Cymru #184
18 Mai 2015

Croeso i e-newyddion Colegau Cymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi [Cysylltwch](#).

Do please [let us know](#) if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Datblygiadau Strategol**Colegau yn Chwilio am Atebion Creadigol Mewn Amser Caled**

Mae'n amser caled ac mae colegau yn chwilio am atebion creadigol er mwyn parhau i helpu cwmnïau ac unigolion i symud ymlaen gyda sgiliau a syniadau newydd tra bod llai o arian o gwmpas. Dyna ffocws allweddol cynhadledd flynyddol Colegau Cymru, sy'n agor ar 21 Mai yn Llandudno.

[Mwy>>>](#)

Arolwg Chwaraeon yn Addysg Bellach

Mae'r arolwg cyntaf erioed o chwaraeon yn addysg bellach ar y gweill.

Mae hon yn garreg filltir bwysig o ran sicrhau cyflawni uchelgais colegau Cymru a'n partneriaid prosiect, Chwaraeon Cymru. Ein nod yw creu newid sylweddol yn ymgysylltu â myfyrwyr mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon yn y cyfnod i ddod.

[Mwy>>>](#)

Coleg Gwent yn cynnig Gradd Sylfaen Nyrsio Milfeddygol

Bydd yr Ysgol Astudiaethau Tir yng Ngholeg Gwent yn addysgu Gradd Sylfaen Nyrsio Milfeddygol ()FDSc) o fis Medi 2015, yn dilyn sêl bendith gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon.

[Mwy>>>](#)

Coleg Gwent yn cydweithio â Dinas Caerdydd

Mae Coleg Gwent wedi ffurfio partneriaeth newydd gyda Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i lansio Canolfan Perfformiad Pêl-droed arloesol a fydd yn agor ym Medi 2015.

Bydd Coleg Gwent a Sefydliad Cymunedol Dinas Caerdydd, ynghyd â phartner addysgol TVS Education, yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu addysg gyflawn i fyfyrwyr sy'n dwli ar bêl-droed fedru cyrraedd prifysgol.

[Mwy>>>](#)

Rhaglenyddion ifanc yn datblygu apiau Cymraeg

Mae myfyrwyr o Glwb Codio Coleg Meirion Dwyfor ar fin dechrau prosiect cyffrous i greu tri math newydd o apiau Android yn yr iaith Gymraeg ar gyfer smartphones a dyfeisiadau symudol.

Mae'r prosiect wedi ei noddi gan grant o dros £15,000 i hybu technoleg a chyfryngau digidol Cymraeg gan Lywodraeth Cymru.

[Mwy>>>](#)

Colegau o Ansawdd

Tiwtor Busnes Yng Ngholeg y Cymoedd ar restr fer i dderbyn gwobr genedlaethol

Mae tiwtor busnes yng Ngholeg y Cymoedd ar restr fer i dderbyn gwobr genedlaethol sy'n dathlu ysbrydoliaeth yn y sector addysg.

Dewiswyd Kim Purnell, sy'n gweithio ar gampws Nantgarw, yn un o'r tri olaf yn Seremoni Gwobrau Addysgu Ysbrydoledig Addysg 'New Directions'.

[Mwy>>>](#)

Cyfarwyddwr Coleg Caerdydd a'r Fro ar restr fer am wobwr fusnes anrhydeddus

Mae Paul Kift, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes Coleg Caerdydd a'r Fro, ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr anrhydeddus Sefydliad y Cyfarwyddwyr.

Mae'n ymgiprys am deitl Cyfarwyddwr y Flwyddyn Sefydliad y Cyfarwyddwyr yn y categori Cyfarwyddwr Menter Gymdeithasol neu Elusen.

[Mwy>>>](#)

Dilyniant Myfyrwyr

Saith Myfyriwr Disglair ar eu ffordd i Rydgrawnt

Mae saith myfyriwr o Goleg Gŵyr Abertawe wedi cael cynnig lle ym Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt eleni.

[Mwy>>>](#)

Cama i'r Ochr, Stella McCartney

Mae myfyriwr Coleg Sir Benfro, Beth Lewis, wedi sicrhau ei lle i astudio Ffasiwn a Dylunio gwisgoedd merched yn y Central Saint Martins, Llundain byd enwog. Nid oedd y broses o wneud cais oedd i'r gwangalon, gyda 5,000 ledled y

byd yn ceisio am le, 100 ar y rhestr fer a 40 eu gwahodd i'r ysgol am gyfweiliad.

[Mwy>>>](#)

Myfyriwr o Landrillo i ymuno a mawrion academiaidd

Mae myfyriwr o Grŵp Llandrillo Menai, Ted Simonds, sy'n astudio'r Baglor Rhyngwladol ar safle Llandrillo-yn-Rhos, wedi cael cynnig diamod yn un o sefydliadau addysgol newydd mwyaf uchel ei barch, y New College of the Humanities (NCH). Bydd y sefydliad yn talu y rhan fwyaf o'r ffi o £18,000 i Ted fynd i'r coleg.

[Mwy>>>](#)

Llongyfarchiadau! Myfyrwyr yn Llwyddo

Enwi'r gorau yng Nghymru yng nghystadleuaeth SkillPLUMB

Mae'r prentis 21 oed Daniel Doughty wedi cael ei enwi fel y gorau yng Nghymru yn rownd ragbrofol gyntaf SkillPLUMB 2015.

[Mwy>>>](#)

Gwobr Gyntaf Barbro Cymru Salon

Mae Jake Morgan, myfyriwr trin gwallt o Goleg Sir Benfro, wedi profi ei fod ben ysgwyddau'n uwch na'r gystadleuaeth, wedi iddo gipio'r wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth 'Barbro' Salon Cymru 2015.

[Mwy>>>](#)

Cystadleuaeth lefel DU ffasiwn yn denu doniau am amrywiaeth mewn dylunio

Mae dwy fyfyrwraig o Goleg Sir Gâr wedi cyrraedd y rhestr fer mewn cystadleuaeth ledled y DU sy'n dathlu amrywiaeth mewn ffasiwn.

[Mwy>>>](#)

Cystadlaethau Aromatherapi, Adweitheg ac Ewinedd

Cynhaliwyd sialensiau Cystadleuaeth Sgilau Cymru ar gyfer Aromatherapi, Adweitheg ac Uwch Ewinedd yng Ngholeg y Cymoedd Coleg ar gampws Nantgarw a chroesawyd dysgwyr o Goleg Cambria, Coleg Sir Benfro, Coleg Gwent a Choleg Sir Gâr.

[Mwy>>>](#)

Gwobrwyo Sgiliau Ysgrifennu Creadigol

Mae pum myfyriwr lefel A o Grwp Llandrillo Menai sy'n astudio yng Nghanolfan y Chweched y coleg yn Rhyl yn dathlu wedi llwyddo mewn cystadleuaeth barddoniaeth cenedlaethol, a bydd eu cerddi nawr yn cael eu cynnwys mewn llyfr.

[Mwy>>>](#)

Ffocws ar Chwaraeon

Enillwyr pencampwriaeth pêl-droed 'Ability Counts' y DU

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-droed Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS) Coleg Gŵyr Abertawe, wedi ennill pencampwriaeth 'Ability Counts' yn rhanbarthol yn gyntaf ac yn awr, wedi dod yn gyntaf yn y DU yn y rownd derfynol yn St George's Park, Burton on Trent.

[Mwy>>>](#)

Carfan y merched yn cael blas ar rygbi rhyngwladol

Yn ddiweddar bu academi rygbi'r merched yng Ngholeg Sir Gâr yn cymryd rhan mewn sesiwn hyfforddi gyda thîm rygbi saith bob ochr merched rhyngwladol Tsieina.

[Mwy>>>](#)

David Dein yn canfod y rhwyd gyda dysgwyr Coleg y Cymoedd

Cafodd dysgwyr Busnes a Chwaraeon campws Nantgarw gipolwg yn ddiweddar ar yrfa lwyddiannus David Dein, y dyn busnes a'r entrepreneur peldroed.

[Mwy>>>](#)

Noson Wobrwyo Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus 2015

Bu i ddau seren y byd rygbi, Justin Tipuric a Dafydd Howells, ymuno yn nathliadau blynyddol gwobrau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus Grŵp NPTC yn ddiweddar.

[Mwy>>>](#)

Cyfleoedd Dysgu

Her Awyrofod Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr wedi profi mai nhw yw peirianwyr awyrennau'r dyfodol, wedi ennill Her Awyrofod Coleg Caerdydd a'r Fro yn erbyn saith o ysgolion lleol.

[Mwy>>>](#)

Entrepreneur meddalwedd yn ysbrydoli myfyrwyr TG

Dychwelodd Adam Curtis, datblygwr meddalwedd a greodd ac sy'n rheoli asiantaeth y Clockwork Bear, i'w cyn goleg, Coleg Gŵyr Abertawe, yn ddiweddar i ysbrydoli dysgwyr TG.

[Mwy>>>](#)

Cystadleuaeth gwallt ym myd y ffilmiau

Wedi'i ysbrydoli gan y ffilmiau, daeth myfyrwyr trin gwallt Campws Dinas Casnewydd Coleg Gwent a'u edrychiadau diweddaraf i'r catwalk yn eu sioe elusennol blynyddol ochr yn ochr â chyflogwyr lleol a enillwyr gwobrau'r diwydiant.

[Mwy>>>](#)

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB